


Mewnol

Cynllun Gweithredol 2017/18

Cyflwyniad

Mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Yr Ombwdsmon) Gynllun Strategol Tair Blynedd sy'n nodi cyfeiriad y swyddfa hyd at ddiwedd 2018/19. Isod ceir crynodeb gweledol o Weledigaeth, Cenhadaeth, Nodau Strategol a Gwerthoedd presennol yr Ombwdsmon. Mae'r Cynllun Strategol cyfan ar gael ar wefan yr Ombwdsmon, ar y dudalen 'Cyhoeddiadau'.



Yn eu hanfod, Cynlluniau Gweithredol blyneddol yr Ombwdsmon yw'r dull o sicrhau bod gweledigaeth, cenhadaeth a nodau strategol yr Ombwdsmon yn cael eu cyflawni. Gwnaed cynnydd mawr yn ystod 2016/17 tuag at wireddu nodau strategol yr Ombwdsmon ac mae rhai o'r prif feysydd y cafwyd llwyddiannau ynddynt wedi'u nodi isod.

Nod Strategol 1 – Darparu gwasanaeth cwynion sydd o'r safon uchaf, sy'n gymesur ac yn effeithiol

- Mabwysiadwyd dull wedi'i adnewyddu o ymdrin â'n strategaeth allgymorth.
- Cafodd seinfyrddau eu sefydlu, gyda'r bwriad o gael adborth gan randdeiliaid ynghylch gwasanaeth cwynion yr Ombwdsmon.
- Cyflwynwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd, sy'n canolbwyntio ar fesur yn ôl profiad y defnyddiwr gwasanaeth yn hytrach na chanolbwyntio'n fewnol, fel y gwnaed o'r blaen.
- Cyflwynwyd fframwaith ansawdd gyda'r bwriad o wella ein gweithgareddau sicrhau ansawdd.
- Dulliau gwell o sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyson o ran llunio argymhellion da sy'n deillio o ymchwiliadau a gwella ein trefniadau cydymffurfio.
- Gwnaed cynnydd da tuag at sicrhau bod ein proses o ymdrin ag achosion yn un ddi-bapur, fel na fyddwn yn gofyn mwyach am ffeiliau cwynion ar ffurf copi caled.

Nod Strategol 2 – Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion y byddwn yn eu hystyried er mwyn gwella'r ffordd y bydd darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ymdrin â chwynion a dylanwadu ar wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, gan lywio polisi cyhoeddus.

- Rydym wedi cynyddu'r graddau y caiff data eu casglu a'u dadansoddi.
- Mae gwaith 'swyddogion gwella' a benodwyd i nifer o gyrff cyhoeddus wedi'i ddatblygu ymhellach.
- Rydym wedi cyhoeddi'r ail adroddiad 'thematig', o'r enw '*Rhoi Diwedd ar yr Un Hen Gân Beunyddiol*', yn sgil llwyddiant adroddiad y flwyddyn flaenorol 'Y Tu Allan i Oriau: Amser i Ofalu'.

Nod Strategol 3 – I barhau i esblygu a thyfu fel swyddfa, gan yn benodol cynllunio ar gyfer rhoi ar waith estyniad pwerau'r Ombwdsmon petai Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n creu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd

- Rydym wedi parhau i gyflwyno'r ddadl o blaid pwerau ychwanegol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Drafft, ac ym mis Mawrth 2017 penderfynodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad fwrw ymlaen â hynny, gyda'r bwriad o gyflwyno Bil yn y Cynulliad.
- Cafodd gweithgor mewnol yr Ombwdsmon ei sefydlu i ystyried pa drefniadau a pharatoadau y byddai'n rhaid eu gwneud er mwyn gweithredu unrhyw bwerau deddfwriaethol ychwanegol newydd a all gael eu rhoi i'r Ombwdsmon.

Nod Strategol 4 – Bod yn atebol am y gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu ac am yr arian cyhoeddus y byddwn yn ei wario

- Bu'r broses o gyflwyno amcangyfrifon cyllidebol yn llwyddiannus, a chyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad adroddiad hynod gadarnhaol.
- Cyhoeddwyd cyfrifon diamad.
- Cytunwyd ar ddull newydd o reoli risgiau ac o ymdrin â'r gofrestr risgiau.
- Mae'r broses o gaffael TG ar gyfer y gronfa ddata i ymdrin â chwynion yn mynd rhagddi.

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn adeiladu ar sail y gwaith a gychwynwyd yn 2016/17, ac mae'r tudalennau a ganlyn yn nodi'r camau sy'n ofynnol er mwyn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i gyflawni Gweledigaeth, Cenhadaeth, Nodau Strategol a Gwerthoedd yr Ombwdsmon.

Allwedd i golofn 'Y Tîm/Swyddog sy'n Gyfrifol' yn y tudalennau a ganlyn:

CYC Cyfarwyddwr Ymchwiliadau Cynorthwyol
 GARhC Y Grŵp Adolygu Rheolaeth Cwynion
 GCC Y Grŵp Cynghori ar y Cod Ymddygiad
 Omb Yr Ombwdsmon
 PSG Y Prif Swyddog Gweithredu
 RhPTG Rheolwr Prosiectau TG
 RhA Y Rheolwr Adolygu

RhYC/SYG Rheolwyr Ymchwilio Cynorthwyol a Swyddogion Ymchwilio a Gwella
 SDDG Swyddog Diogelu Data a Gwybodaeth
 TCG Y Tîm Cyngor ar Gwynion
 TGC Y Tîm Gwasanaethau Corfforaethol
 TPCh Y Tîm Polisi a Chyfathrebu

Nodau Strategol

Nod Strategol 1 – Darparu gwasanaeth cwynion sy'n hawdd cael gafael arno, sydd o'r safon uchaf, ac sy'n gymesur ac yn effeithiol

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
1.1 Cyflawni gweithgareddau ychwanegol i godi ymwybyddiaeth o wasanaeth yr Ombwdsmon, yn enwedig ymhlith pobl sy'n agored i niwed.	Strategaeth allgymorth 2016/17 i'w diweddarau, gyda rhaglen allgymorth newydd i'w chreu ar gyfer 2017/18.	TPCh/Pawb	Ebrill	Mehefin	Mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn rhaglen allgymorth 2017/18 wedi'u cynnal.
1.2 Yn gyson â'n hymrwymiad i gydraddoldeb, parhau i sicrhau bod y gwasanaeth ar gael yn hawdd i bawb.	Yn sgil yr adolygiad o'r deunyddiau yn 2016/17, ymgysylltu â seinfwrdd y sector gwirfoddol (gweler 1.4) i geisio safbwyntiau am hygyrchedd gwasanaeth yr Ombwdsmon ar gyfer ymdrin â chwynion. Yna, ystyried a yw'n ymarferol gweithredu'r awgrymiadau.	RhA/TPCh/Pawb	Ebrill	Mawrth	Mae unrhyw welliannau y gellir eu cyflwyno wedi'u gweithredu.
1.3 Parhau i ddadansoddi'r data am gydraddoldeb a gesglir am ddefnyddwyr gwasanaeth yr Ombwdsmon.	Llunio adroddiadau bob chwe mis ar gyfer y Tîm Rheoli, gan nodi unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Caiff y data eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Blynnyddol.	TPCh	Medi Mawrth	Diwedd Mawrth Mehefin	Adroddiadau wedi'u llunio, sy'n tynnu sylw at feysydd angen ystyriaeth/gweithred Data wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad ar Gydraddoldeb

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
<p>1.4 Ceisio adborth er mwyn gwella perfformiad ein swyddfa a lefelau'r bodlonrwydd â'n gwasanaeth a rhoi sylw o'r newydd i daith yr achwynydd drwy wasanaeth ymdrin â chwynion yr Ombwdsmon, gan weld beth yw safbwynt y defnyddiwr, ac ystyried a oes angen cyflwyno unrhyw newidiadau i'n ffordd o weithio.</p>	<p>Tri seinfwrdd (y sector gwirfoddol, cyrff iechyd ac awdurdodau lleol) wedi'u sefydlu yn 2016/17. Cyfarfodydd i'w cynnal yn ôl cylch rheolaidd, bob chwe mis.</p> <p>Nodiadau i'r Tîm Rheoli ar ôl pob cyfarfod.</p> <p>Cyflwyno/gweithredu dull diwygiedig o ymdrin â'r arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid.</p>	<p>RhA/TPCh</p> <p>RhA/TPCh</p> <p>PSG/TPCh</p>	<p>Ebrill</p> <p>Ar ôl pob cyfarfod</p> <p>Ebrill</p>	<p>Pob seinfwrdd i'w gynnal ddwywaith y flwyddyn</p> <p>Y Tîm Rheoli nesaf ar ôl pob cyfarfod</p> <p>Mawrth</p>	<p>Mae cyfarfodydd â rhanddeiliaid wedi'u cynnal, a bydd yr adborth yn rhoi gwybod a oes angen diwygio dull yr Ombwdsmon o ymdrin â chwynion.</p> <p>Mae'r Tîm Rheoli'n ystyried y newidiadau sydd wedi'u hawgrymu sy'n deillio o seinfyrddau, ac yn eu gweithredu, pan fo'n briodol.</p> <p>Arolwg newydd wedi'i gyflwyno a data ychwanegol wedi'u rhoi i'r Tîm Rheoli ac wedi'u cyhoeddi yn yr Adroddiad Blyneddol (neu fformat cyhoeddi priodol arall)</p>
<p>1.5 Adolygu'r dulliau mesur perfformiad yr ydym wedi'u pennu, er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn ystyrlon ac yn briodol o heriol.</p>	<p>a) Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2017/18:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 95% o'r holl alwadau i brif linell y dderbynfa (i wasanaethau craidd yr Ombwdsmon a Cwynion Cymru) i'w hateb cyn pen 30 eiliad • Gwasanaeth Cwynion Cymru i ddarparu'r wybodaeth y gofynnodd y defnyddiwr gwasanaeth amdani cyn pen un diwrnod gwaith • Gwasanaeth Cwynion Cymru i anfon manylion cwynion ymlaen at ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus perthnasol/y rhai sy'n ymdrin â chwynion (pan fo'r defnyddiwr gwasanaeth yn gofyn am hynny) cyn pen tri diwrnod gwaith 	<p>TCG/Y Timau Ymchwilio</p>	<p>O fis Ebrill ac yn parhau</p>	<p>Diwedd Mawrth</p>	<p>(a) Drwy gyflawni'r targedau a bennwyd, mae'r Ombwdsmon yn gallu dangos ei fod yn llwyddo i ddarparu ymatebion yn ôl yr amserlen i gwynion mewn amrywiol gyfnodau yn y gwasanaeth ymdrin â chwynion.</p>

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfnodau ar gyfer penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r gŵyn am gorff cyhoeddus: <ul style="list-style-type: none"> (a) Penderfynu a yw'r gŵyn o fewn yr awdurdodaeth/yn cael ei chyflwyno'n rhy gynnar, cyn pen 3 wythnos (b) Penderfynu a ddylid ymchwilio neu beidio, yn dilyn asesiad manwl, cyn pen 6 wythnos (c) Os penderfynir ceisio datrysiad cynnar heb ymchwilio, cyflawni'r datrysiad cyn pen 9 wythnos. • Penderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn Cod Ymddygiad cyn pen 4 wythnos <p>b) Yn unol ag uchelgais y swyddfa o ran gwella'n barhaus, mae dau Ddangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ynglŷn ag ymchwiliadau i weithredu'n gydamserol yn 2017/18, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau'r ymchwiliadau cyn pen 12 mis ar ôl dechrau'r ymchwiliad (presennol) • Cwblhau'r ymchwiliadau cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad y cafwyd gwybodaeth ddigonol gan yr achwynydd (gyda'r nod mai dyma fydd y DPA ar gyfer ymchwiliadau yn 2018/19) <p>c) Bydd adroddiadau monitro i nodi'r llwyddiannau yn ôl y dangosyddion perfformiad uchod yn cael eu llunio ar gyfer y Tîm Rheoli yn fisol.</p>				<p>(b) Digon o gynnydd erbyn diwedd 2017/18 er mwyn ei gyflwyno'n darged i gymryd lle'r un blaenorol yn 2018/19</p> <p>(c) Adroddiadau misol wedi'u llunio, gan gynnwys data newydd, pan fo'n berthnasol.</p>

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
1.6 Datblygu eto ein safonau ansawdd ar gyfer gwaith achos.	<p>Gweithredu trefniadau'r fframwaith sicrhau ansawdd a gyflwynwyd yn 2016/17 a chyflwyno adroddiadau bob chwarter i'r Tîm Rheoli, gan ledaenu'r arferion da i'r staff hefyd.</p> <p>Adolygu ein dull o reoli'r cyswllt â'r achwynwyr</p> <p>Ystyried y goblygiadau i'r Ombwdsmon yn sgil Fframwaith Safonau Gwasanaeth Cymdeithas yr Ombwdsmon a datblygu safonau, dulliau mesur a phrosesau mewnol i gyflawni'r gofynion</p> <p>Treialu dull o dargedu achosion a fyddai'n cael budd o weithredu dull hawliau dynol a chydaddoldeb ystyriol o ymdrin ag ymchwiliadau.</p> <p>Sicrhau bod proses ar waith ar gyfer cael cyngor clinigol yn sgil y newid i'r trefniadau â'r PHSO.</p>	<p>RhA</p> <p>TCG (yn arwain) + Timau Ymchwilio</p> <p>Y Tîm Rheoli</p> <p>Timau Ymchwilio</p> <p>PSG/TGC</p>	<p>Ebrill</p> <p>Ebrill</p> <p>Ebrill</p> <p>Ebrill</p> <p>Yn parhau</p>	<p>Mehefin</p> <p>Medi</p> <p>Mawrth</p> <p>Diwedd Ebrill ac yn parhau</p> <p>Ebrill</p>	<p>Adroddiadau ansawdd yn darparu'r sicrwydd fod gwaith achos o safon uchel, ac arferion da a nodwyd wedi'u lleadaenu i'r staff.</p> <p>Mae unrhyw feysydd a nodwyd ar gyfer gwella'r cyswllt â'r achwynwyr wedi'u gweithredu.</p> <p>Safonau Gwasanaeth yr Ombwdsmon ar waith, wedi'u cyhoeddi, ac wedi'u cyfleu i'r achwynwyr, fel sy'n briodol.</p> <p>Trefniadau ar gyfer mesur a chofnodi perfformiad ar waith er mwyn adrodd yn llawn yn 2018/19.</p> <p>Adroddiad ar ddiwedd y peilot ynghyd ag argymhellion ar gyfer bwrw ymlaen â'r dull hawliau dynol a chydaddoldeb fel rhan annatod/integredig o'r broses gyffredinol o ymdrin â chwynion.</p> <p>Ceir cyngor clinigol addas ar gyfer gwaith achos sy'n ymwneud â chwynion ym maes iechyd.</p>

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
1.7 Mireinio'n dull o gyflwyno argymhellion a rhoi rhagor o bwyslais ar sicrhau bod pobl yn cydymffurfio'n effeithiol ac yn brydlon â'r rhain, yn ogystal â chasglu data ychwanegol i adlewyrchu'n briodol ymdrech y staff yn sicrhau bod argymhellion yr Ombwdsmon yn cael eu rhoi ar waith yn briodol.	Ystyried y data ychwanegol sydd ar gael, ynghyd â chyfraddau cydymffurfio Adolygu pa mor dda y mae'r dull a gyflwynwyd yn 2016/17 yn gweithredu	GARhC GARhC	Bob chwarter Medi	Bob chwarter Mawrth	Mae adroddiadau cydymffurfio'n cael eu llunio ar gyfer y Tîm Rheoli bob chwarter. Mae adolygiad wedi'i gwblhau ac unrhyw ddiwygiadau gofynnol i'r dull a gyflwynwyd yn 2016/17 yn cael eu gweithredu.
1.8 O ran cwynion cod ymddygiad, i adolygu effaith y prawf dau gam budd cyhoeddus ar gyfer ymchwilio.	Cynhaliwyd adolygiad yn 2016/17. Yn sgil hynny, cafodd y Grŵp Cynghori ar y Cod Ymddygiad (GCC) ei greu. Ar gyfer 2017/18, bydd y GCC yn cwrdd bob mis, gan gynnwys monitro ac adolygu achosion. Adroddiadau i'w cyflwyno i'r Tîm Rheoli.	GCC GCC	Misol Bob chwarter	Misol Bob chwarter	Cadarnhad wedi'i ddarparu mai dim ond achosion sy'n ymwneud â budd y cyhoedd sy'n mynd ymlaen i fod yn destun ymchwiliad.
1.9 Cryfhau ein hymagwedd gyffredinol at arferion rheoli er mwyn mynd i'r afael â gofynion cynyddol gwaith achos, y capasiti sydd ar gael a'r perfformiad.	Cafodd fersiwn ddiwygiedig o'r Adolygiad Personol a Chynllun Datblygu (PRDP) ei chyflwyno ar ddiwedd 2016/17. Mae hon i'w gweithredu erbyn 2017/18.	TGC/Y Tîm Rheoli	Ebrill	Mawrth	Mae trefniadau rheoli perfformiad diwygiedig ar waith.
1.10 Cwblhau ein prosiect ymdrin ag achosion heb ddefnyddio papur, fel nad ydym bellach yn creu ffeiliau achos papur am gwynion.	Bu'r gwaith cynllunio ar gyfer y prosiect arwyddocaol a phwysig hwn yn mynd rhagddo yn ystod 2016/17. Mae'r cynllun peilot i'w gyflwyno eleni.	TGC/TCG/Tim au Ymchwilio/RhP TG (GARhC)	Ebrill	Mawrth	Y cynllun peilot wedi'i gyflwyno ac argymhellion ynghylch cyflwyno'n ehangach wedi'u gwneud cyn diwedd y flwyddyn.

Nod Strategol 2: Defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn sgil y cwynion y byddwn yn eu hystyried er mwyn gwella'r ffordd y bydd darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ymdrin â chwynion a dylanwadu ar wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus, gan lywio polisi cyhoeddus

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
2.1 Gwella lefel y data sy'n cael eu cipio a'u dadansoddi ar gyfer y cwynion a gawn, er mwyn inni allu gweld tueddiadau'n well a nodi unrhyw bryderon sy'n codi, o ran y cwynion a geir am gyrrff unigol, yn ogystal ag am feysydd darparu gwasanaethau cyhoeddus.	Cynhaliwyd cyfarfodydd anffurfiol yn ystod 2016/17. Mae gweithgor ffurfiol i'w greu yn 2017/18 er mwyn bwrw ymlaen â gwaith ar gipio data, a'u dadansoddi, mewn ffordd fwy strwythuredig.	Gweithgor Data	Ebrill	Medi	Mae'r argymhellion ynghylch bwrw ymlaen â chipio data a'u dadansoddi wedi'u cyflwyno i'r Tîm Rheoli.
	Adolygu'r dull o ymdrin â datrysiadau cynnar/ymchwiliadau llawn, gan gynnwys ystyried y ffordd orau o sicrhau y rhoddir pwyslais priodol ar ganlyniadau a gwersi yn sgil achosion a gafodd eu datrys yn gynnar.	PSG/CYC/Rheolwyr	Ebrill	Medi	Mae cyrrff sydd y tu mewn i'n hawdurdodaeth yn rhoi'r un pwyslais ar argymhellion a wnaed mewn datrysiad cynnar ag a roddir i'r rhai mewn cyfnod ymchwilio.
2.2 Datblygu'r gwaith a ddechreuwyd yn 2015/16 gyda golwg ar ymgysylltu â chyrrff sydd o dan ein hawdurdodaeth (heb i hyn beryglu ein hannibyniaeth) gyda golwg ar wella'u harferion trin cwynion a'u diwylliant cwynion	Cafodd cynlluniau gweithredu unigol ar gyfer RhYC/SYG eu cyflwyno yn ystod 2016/17. Ar gyfer 2017/18, mae adolygiad o gynlluniau gweithredu i'w gynnal, a'i ddatblygu ymhellach.	Y Tîm Rheoli/RhYC/SYG	Ebrill	Gorffennaf	Mae cynlluniau gweithredu diwygiedig wedi'u creu ac ar waith.
	Mae adolygiad o'r wybodaeth yn y Llythyrau Blynyddol a anfonir at Gynghorau Sir a Byrddau Iechyd i'w gynnal ac mae fformat newydd i'w gyflwyno.	TPCh	Ebrill	Gorffennaf	Mae Llythyrau Blynyddol yn cael eu hanfon yn brydlon.
	Trefnu seminar blynyddol i rannu gwersi â rhanddeiliaid allweddol.	TPCh	Medi	Ionawr	Mae'r seminar flynyddol wedi'i chynnal.

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
2.3 Cefnogi'r dirwedd ymdrin â chwynion, drwy barhau i ddarparu gwasanaeth cyfeirio Cwynion Cymru	Adolygu gwasanaeth Cwynion Cymru ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau.	Y Tîm Rheoli/TCG	Ebrill	Mawrth	Mae unrhyw newidiadau a nodwyd i wella gwasanaeth Cwynion Cymru yn cael eu cyflwyno
2.4 Cyhoeddi adroddiadau 'themtig' ar sail y dystiolaeth ychwanegol sy'n codi o'n gwaith yn 2.1 uchod, gyda golwg ar wella'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus	Nodi thema ar gyfer adroddiad a'i gyhoeddi	Y Tîm Rheoli/TPCh	Ebrill	Rhagfyr	O leiaf un adroddiad thematig wedi'i gyflwyno yn ystod 2017/18.
2.5 Parhau i gyhoeddi Coflyfrau'r Ombwdsmon, ond adolygu'r ffordd y caiff y rhain eu cyhoeddi gyda golwg ar eu gwneud yn fwy hwylus i'r defnyddiwr o safbwynt rheoli/rhannu gwybodaeth.	Parhau i gyhoeddi Coflyfrau bob chwarter, gan ystyried dulliau eraill o'u cyflwyno wrth ddatblygu'r wefan newydd.	TPCh	Ebrill	Mawrth	Mae'r coflyfrau wedi'u cyhoeddi'n brydlon, ac mae fformat newydd i'r wefan, os yw hynny'n ymarferol.
2.6 Ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ymgynghoriadau eraill lle y gallwn gyfrannu ein safbwynt, ac ychwanegu gwerth at ystyriaethau ynghylch polisiau cyhoeddus.	Syllu ar y gorwel yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr Ombwdsmon yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ymateb i ymgynghoriadau perthnasol.	TPCh	Ebrill	Mawrth	Mae'r Ombwdsmon yn ymateb i ymgynghoriadau, gan ddarparu tystiolaeth i lywio datblygiadau o ran polisiau cyhoeddus.

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
2.7 Diwygio canllawiau'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol i adlewyrchu datblygiadau sy'n codi yn sgil achosion ac unrhyw newidiadau deddfwriaethol	Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr yn 2016/17. Fodd bynnag, dylid ystyried yn 2017/18 a oes angen unrhyw ddiwygiadau pellach.	CYC/Timau Ymchwilio	Ionawr	Mawrth	Mae canllawiau diwygiedig wedi'u cyhoeddi, os oes angen.
2.8 Cyflwyno strategaeth gyfathrebu newydd a fydd yn ein gwneud yn fwy amlwg, ac felly'n cryfhau'n dylanwad, gan sicrhau bod y ddealltwriaeth a'r gwersi a ddysgwyd yn ein hymchwiliadau'n denu sylw cyhoeddus priodol.	Adolygu effeithiolrwydd y strategaeth gyfathrebu a gyflwynwyd yn 2017/18 ac ystyried a oes angen ei diwygio o gwbl.	TPCh	Ionawr	Mawrth	Gan ddibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, dylai'r strategaeth ddiwygiedig fod ar waith erbyn dechrau 2018/19.

Nod Strategol 3: I barhau i esblygu a thyfu fel swyddfa, gan yn benodol cynllunio ar gyfer rhoi ar waith estyniad pwerau'r Ombwdsmon petai Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n creu Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd

Yn y Cynllun hwn, mae angen ystyried y posibilrwydd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn creu cyfraith newydd yn ystod oes y Cynllun. Nid yw'r ffaith bod y Nod Strategol hwn wedi'i gynnwys yn golygu y cymerir yn ganiataol y bydd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) newydd, ac ni fwriedir i hynny ddangos bod rhagdybiaeth ynglŷn â manylion terfynol unrhyw Ddeddf o'r fath.

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
3.1 Paratoi i ddiwygio ein meini prawf, ein gweithdrefnau a'n harferion ar gyfer derbyn cwynion, gan roi ystyriaeth benodol i gwynion llafar.	Parhau'r gwaith a gychwynnwyd yn 2016/17 ar ddiwygio'r weithdrefn gwynion i adlewyrchu'r trefniadau newydd ynglŷn â derbyn cwynion.	Gweithgor	Yn parhau	Fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth	Mae'r weithdrefn ddiwygiedig ar waith erbyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.
3.2 Diwygio ein harferion er mwyn storio'r cwynion hynny a wneir ar lafar ar ein cronfa ddata	Yn dilyn y broses gwmpasu, mae system gweinyddu cwynion i'w datblygu er mwyn diwallu'r anghenion.	Gweithgor	Yn parhau	Fel sy'n briodol yn ystod 2017	Mae cronfa ddata wedi'i datblygu i gofnodi cwynion a wneir ar lafar (hynny yw, dros y ffôn).
3.3 Cyhoeddi canllawiau sy'n esbonio meini prawf yr Ombwdsmon ar gyfer derbyn cwynion, gan gyfeirio'n benodol at gwynion llafar	Cafodd y rhain eu llunio yn 2016/17. Maent yn barod i'w cyhoeddi pan fydd yn briodol.	Gweithgor	Nid yw'n berth-nasol	Fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth	Cyhoeddwyd y canllawiau erbyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.
3.4 Nodi'r endidau gofal iechyd preifat a fydd yn dod o dan awdurdodaeth yr Ombwdsmon a chofnodi'r rheini ar ein cronfa ddata ymdrin â chwynion.	Cael manylion ysbytai preifat a'u mewnbynnu i'r gronfa ddata.	Gweithgor	Ionawr	Chwefror	Mae'r manylion ar gael ar y gronfa ddata erbyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tim/Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
3.5 Paratoi i gysylltu â'r endidau gofal iechyd preifat perthnasol hynny i esbonio'r trefniadau newydd iddynt.	Llunio papur briffio ar gyfer ysbytai preifat, gan egluro pŵer newydd yr Ombwdsmon	Gweithgor	Yn parhau	Fel sy'n briodol yn ôl y ddeddfwriaeth	Mae'r papur briffio wedi'i ddsbarthu cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.
3.6 Cynllunio ar gyfer yr arweinyddiaeth, y rheolaeth a'r strwythur darparu gwasanaethau y bydd eu hangen i wireddu'r pwerau pen a phastwn newydd ac wedyn rhoi'r cynlluniau hynny ar waith.	Mae'r gofynion o ran staff wedi'u nodi. Erbyn hyn, mae angen penderfynu ar strwythur staff priodol ar gyfer cyflawni gofynion pwerau a swyddogaethau newydd yr Ombwdsmon.	Omb/PSG	Yn parhau	Rhagfyr	Cytunwyd ar strwythur staff ac mae'r staff newydd yn eu swyddi erbyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.
3.7 Cyhoeddi meini prawf yr Ombwdsmon ar gyfer cychwyn ymchwiliadau pen a phastwn a chyflwyno dulliau gweithredu ac ymarferion.	I'w llunio a'u cyhoeddi yn sgil manylion y ddeddfwriaeth.	Gweithgor	Mae'n dibynnu ar gynnydd y ddeddfwriaeth	Mae ymgynghoriad i'w gynnal cyn gynted ag y mae'r ddeddfwriaeth yn ei ganiatáu. Cyhoeddi yn sgil yr ymgynghoriad.	Mae'r dogfennau perthnasol wedi'u cyhoeddi, ac mae staff a rhanddeiliaid yr Ombwdsmon yn deall y meini prawf ar gyfer ymchwiliadau pen a phastwn yn dda, yn unol â gofynion yr amserlen ddeddfwriaethol.
3.8 Cynllunio ar gyfer yr arweinyddiaeth, y rheolaeth a'r strwythur darparu gwasanaethau y bydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaeth safonau cwynion newydd ac wedyn rhoi'r cynlluniau hynny ar waith.	Mae'r gofynion o ran staff wedi'u nodi. Mae'r penderfyniad ar yr ystyriaethau ynglŷn â'r strwythur staff priodol i'w wneud ar yr un pryd ag yn 3.6 uchod.	Omb/PSG	Yn parhau	Rhagfyr	Fel yn 3.6 uchod

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
3.9 Datblygu'r egwyddorion ar gyfer yr awdurdod safonau cwynion yn unol â'r gofyniad statudol.	Mae'r gwaith datblygu wedi cychwyn. Rhoddir y wedd derfynol ar y gwaith pan fydd manylion y ddeddfwriaeth ar gael.	Gweithgor	Yn parhau	Ymgynghoriad cyn gynted ag y bo cynnydd y ddeddfwriaeth yn ei ganiatáu. Wedyn, cyhoeddir cyn gynted ag y bo modd.	Mae'r canllawiau wedi'u cyhoeddi erbyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Mae datganiad egwyddorion wedi'i osod gerbron y Cynulliad yn unol â'r gofyniad deddfwriaethol.
3.10 Ar yr adeg briodol, recriwtio'r aelodau ychwanegol angenrheidiol o staff i gynnal y swyddogaethau ym maes safonau cwynion a pen a phastwn.	Yn dilyn 3.6 a 3.8 uchod, recriwtio staff i swyddi newydd.	Gweithgor	Yn parhau	Erbyn i'r pwerau newydd gael eu cyflwyno	Mae'r staff yn eu swyddi.
3.11 Cyhoeddi strategaeth gyfathrebu er mwyn i holl randdeiliaid yr Ombwdsmon ddeall pwerau newydd yr Ombwdsmon a beth yw ystyr y rhain.	Mae strategaeth gyfathrebu wedi'i llunio sy'n ystyried pob agwedd ar bwerau a swyddogaethau newydd yr Ombwdsmon a'r ffordd orau o roi gwybod i holl randdeiliaid yr Ombwdsmon am y rhain (mae hyn yn cynnwys y gofynion cyhoeddi a nodir yng nghyswllt amcanion 3.1 i 3.9 uchod). Bydd y strategaeth hefyd yn ymdrin â chyfathrebu mewnol.	Gweithgor	Yn parhau	Fel sy'n ofynnol ar gyfer rhanddeiliaid amrywiol	Mae'r strategaeth gyfathrebu ar waith ac mae'r rhanddeiliaid wedi'u hysbysu mewn modd clir ac amserol am y goblygiadau a'r gofynion yng nghyswllt pwerau a swyddogaethau newydd yr Ombwdsmon.

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
3.12 Darparu hyfforddiant i holl staff yr Ombwdsmon er mwyn i bawb ddeall pwerau newydd yr Ombwdsmon; a hyfforddiant penodol i'r rheini a gaiff eu recriwtio i'r rolau newydd.	Dylunio cynlluniau hyfforddi ar gyfer timau amrywiol yr Ombwdsmon, a fydd yn cynnwys pecynnau hyfforddi, a threfnu seminarau hyfforddi priodol.	Gweithgor	Yn parhau	Erbyn i'r pwerau newydd ddod i rym.	Mae'r staff wedi'u hyfforddi'n briodol erbyn i'r pwerau gychwyn.
3.13 A dibynnu ar ganlyniad y ddeddfwriaeth arfaethedig, rhoi unrhyw un neu bob un o'r pwerau newydd posibl uchod ar waith a'u gweithredu.	Gan ddibynnu ar y canlyniad a'r amseriad, eu gweithredu [Adolygu effeithiolrwydd trefniadau ym Mlwyddyn 2 neu 3.]	Y Tîm Rheoli	Mae'n dibynnu ar y ddeddfwriaeth	Mae'n dibynnu ar y ddeddfwriaeth	Mae proses effeithiol ac amserol o roi'r pwerau newydd ar waith.

Nod Strategol 4: Bod yn atebol am y gwasanaeth y byddwn yn ei ddarparu ac am yr arian cyhoeddus y byddwn yn ei wario

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
4.1 Datblygu cynlluniau gweithredu blynyddol yn gefn i'r Cynllun Strategol hwn	Mae cynllun gweithredol i'w ddatblygu, a fydd yn cynnwys ymgynghori â'r staff.	TPCh	Medi	Mawrth	Mae'r Cynllun Gweithredol ar waith.
4.2 Sicrhau ein bod mor effeithlon â phosibl, gan gymryd i ystyriaeth cost, ansawdd, amseroldeb a thrwybwn ac, er gwaetha'r cynnydd yn y llwyth achosion a'r posibilrwydd y caiff yr awdurdodaeth ei hestyn, cynnal ein hymrwymiad na fyddwn wrth geisio arian i ddarparu ein gwasanaeth, yn gofyn am fwy na 0.03% o Floc Cymru a gaiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru.	Adolygu ac, os oes angen, ddiwygio ein prosesau o ran datblygu a rheoli'r gyllideb er mwyn sicrhau effeithlonrwydd. Ymchwilio i feysydd i'w trafod ag Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran archwiliadau Gwerth am Arian (gan ystyried unrhyw oblygiadau cysylltiedig o ran costau). [I'w weithredu ym Mlwyddyn 3 – gan ddibynnu ar ganlyniad trafodaethau.]	TGC/Y Tîm Rheoli PSG/TGC	Ebrill Medi	Bob chwarter Mawrth	Rydym yn cyflawni'r ymrwymiad i beidio â gofyn am fwy na 0.03% o Floc Cymru. Cytunwyd ar archwiliad Gwerth am Arian ar gyfer 2018/19 (gan ddibynnu ar ganlyniad trafodaethau)
4.3 Cyhoeddi cyfrifon diamod	Sicrhau bod systemau ariannol a threfniadau archwilio mewnol cadarn ar waith er mwyn diogelu'r sefyllfa o ran cyfrifon diamod, drwy gyfrwng adroddiadau monitro mwy cynhwysfawr i'r Tîm Rheoli.	TGC	Ebrill	Gorffennaf	Mae cyfrifon diamod wedi'u cyhoeddi.
4.4 Parhau i gynnal cyfarfodydd o Banel Cynghori Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, gan roi'r wybodaeth angenrheidiol i'r ffora hynny er mwyn iddynt allu herio a chynghori'r Ombwdsmon.	Datblygu rhaglen waith briodol ar gyfer y cyfarfodydd. Caiff papurau'r cyfarfodydd eu cyflwyno'n brydlon.	TPCh TPCh	Tachwedd Bob chwarter	Rhagfyr Bob chwarter	Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ac mae aelodau'r Panel a'r Pwyllgor yn cadarnhau eu bod yn fodlon ar y ffordd y mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal/ar y wybodaeth a ddarperir yn ystod yr ymarferion adrodd/asesu blynyddol.

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
4.5 Rhoi tystiolaeth briodol a chadarn i bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.	Cyflwyno gwybodaeth ar sail tystiolaeth i ymchwiliadau pwyllgor fel sy'n ofynnol (yn ogystal â llunio Adroddiad Blyneddol cynhwysfawr).	TPCh/Pawb	Ebrill	Mawrth	Derbynnir bod y dystiolaeth a roddwyd i Bwyllgorau yn gadarn, ac nid oes fawr ddim o atebion atodol i'w darparu yn dilyn unrhyw achlysuron o ymddangos gerbron Pwyllgor.
4.6 Parhau i reoli risg ac i osgoi canlyniadau anfwriadol lliniaru risg	Gweithredu'r fformat diwygiedig ar gyfer rheoli risgiau a ddyfeisiwyd yn 2016/17, gan sicrhau bod staff wedi'u cynnwys yn y gwaith o ganfod risgiau. Bydd y Tîm Rheoli'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau, drwy gyfrwng adroddiadau chwarterol.	Y Tîm Rheoli/Pawb Y Tîm Rheoli/Pawb	- -	O fis Ebrill ymlaen Bob chwarter	Gwaith rheolaidd o ystyried risgiau, a'r risgiau newydd a ganfuwyd, gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Nid oes dim risg annisgwyl (o fewn gallu yr Ombwdsmon i ganfod risgiau) wedi dod i'r amlwg.
4.7 Fel cyflogwr cyfrifol, cyflwyno trefniadau newydd ym maes perfformiad a datblygu staff yn 2015/16 a sicrhau bod strategaeth hyfforddi a datblygu proffesiynol addas ar waith.	Ar ôl cyflwyno'r broses newydd yn 2016/17, parhau i'w gweithredu gan gynnwys nodi'r anghenion hyfforddi yn fwy manwl. [Cynhaliwyd yr arolwg staff y bwriadwyd ei gynnal ym Mlwyddyn 2, ym Mlwyddyn 1. Bydd arolwg dilynol yn cael ei gynnal ym Mlwyddyn 3.]	Y Tîm Rheoli	Ebrill	Mawrth	Mae'r broses well ar gyfer canfod anghenion hyfforddi yn sicrhau'r lefel uwch o fanylder sydd ei hangen.

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
4.8 Datblygu cynllun datblygu TG tair blynedd newydd, gan sicrhau bod y swyddfa'n gallu sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl o ran ymdrin â chwynion a'r sianelau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o waith yr Ombwdsmon.	<p>Cafwyd cyngor TG arbenigol yn ystod 2016/17. Mae'r hyn a ganlyn i'w ddatblygu yn 2017/18:</p> <ul style="list-style-type: none"> - y tendr ar gyfer cymorth TG - y tendr ar gyfer y system rheoli gwaith achos TG - y trefniadau ar gyfer symud i amgylchedd cyfrifiadura cwmwl - caffael gwefan newydd yr Ombwdsmon <p>Adolygiad rheoli data mewn cysylltiad â diogelwch, cywirdeb, a rheoli dogfennau</p> <p>Bwrw ymlaen â'r gwaith cyfathrebu mewnol/y Fewnrwyd a gychwynwyd yn 2016/17</p>	<p>Y Tîm Rheoli/RhPT G</p> <p>SDDG/CYC</p> <p>TGC/TPCh</p>	<p>Ebrill</p> <p>Ebrill</p> <p>Yn parhau</p>	<p>Mawrth</p> <p>Mawrth</p> <p>Medi</p>	<p>Bu'r broses dendro yn llwyddiannus, a nodwyd darparwyr addas ar gyfer y gofynion amrywiol ym maes TG.</p> <p>Mae'r adolygiad wedi canfod unrhyw welliannau sydd eu hangen, ac mae cynllun wedi'i lunio i'w gweithredu.</p> <p>Gwell trefniadau fewnrwyd yn eu l.</p>
4.9 Bod yn aelod brwd o'r gymuned ombwdsmon ehangach yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol, i sicrhau bod yr Ombwdsmon mewn sefyllfa i rannu arferion da ac elwa ohonynt.	Mynd i gyfarfodydd perthnasol a mynd ati i gyfrannu at fentrau a datblygiadau.	Omb/pawb	-	Yn parhau	Mae'r Ombwdsmon yn dal i fod â swydd arweiniol yng Nghymdeithas yr Ombwdsmon; mae'r staff yn parhau'n aelodau gweithredol o grwpiau buddiant Cymdeithas yr Ombwdsmon.
4.10 Parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio gyda Chomisiynwyr Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.	Mae cyfarfodydd yr Ombwdsmon â'r Comisiynwyr yn cynnwys ymchwilio i feysydd lle y gellid cydweithio/cydweithredu	Omb/PSG	-	Yn parhau	Mae o leiaf un trefniant wedi'i gyflwyno yn ystod y flwyddyn.
4.11 Parhau â'n hymdrechion i fod yn ymwybodol o'r amgylchedd yn ein harferion busnes	Datblygu cynllun i sicrhau bod yr Ombwdsmon yn cydymffurfio â Deddf yr Amgylchedd a'r gofyniad i gyflwyno adroddiadau blynyddol.	CYC/TGC	Ebrill	Mawrth	Mae'r Ombwdsmon yn cydymffurfio fel sy'n ofynnol yn ôl Deddf yr Amgylchedd.

Yn ychwanegol at yr amcanion uchod, i'w cael yn y Cynllun Strategol, mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn pennu'r canlynol:

Amcanion y Cynllun Strategol Tair Blynedd	Camau Cynllun Gweithredol 2017/18	Y Tîm/ Swyddog sy'n Gyfrifol	Dyddiad Cychwyn	Y Dyddiad Cwblhau a Dargedir	Meini Prawf Llwyddiant
4.12 Diogelwch Gwybodaeth/Diogelu Data/Rhyddid Gwybodaeth/Ceisiadau am Wybodaeth Amgylcheddol	<p>(a) Cyflwyno'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd yn 2016/17 i sicrhau y cydymffurfir â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) ym mis Mai 2018.</p> <p>(b) Pob aelod staff yn cael hyfforddiant diweddar blyneddol yn fewnol, gan gynnwys newydd-ddyfodiaid fel rhan o'r broses gynefino, i ymgorffori diogelwch gwybodaeth.</p> <p>(c) Bydd y dangosyddion perfformiad ar gyfer 2016/17 fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae ceisiadau gwybodaeth perthnasol i'w trosglwyddo i'r TGC cyn pen 3 diwrnod gwaith ar ôl iddynt ddod i law Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth/Diogelu Data/Gwybodaeth Amgylcheddol i'w hateb o fewn y terfynau amser statudol (20 diwrnod gwaith, 40 diwrnod calendr, 20 diwrnod gwaith, yn y drefn honno) Mae adolygiadau y gofynnwyd amdanynt o ymatebion i geisiadau am wybodaeth i'w cwblhau cyn pen 30 diwrnod gwaith 	<p>CYC/SDDG</p> <p>SDDG</p> <p>SDDG</p>	<p>Yn parhau</p> <p>Ebrill</p> <p>Ebrill</p>	<p>Mai</p> <p>Mai</p> <p>Mawrth</p>	<p>Mae'r Ombwdsmon yn cydymffurfio â'r RhDDC.</p> <p>Mae'r holl staff yn cael hyfforddiant.</p> <p>Mae'r dangosyddion perfformiad wedi'u cyflawni.</p>
4.13 Cwynion amdanom ni	<p>Bydd y dangosyddion perfformiad a ganlyn yn berthnasol yn 2016/17:</p> <ul style="list-style-type: none"> Cwblhau ymchwiliadau 'cwynion amdanom ni' cyn pen 20 diwrnod gwaith Cwblhau pob adolygiad y gofynnwyd amdano o 'gwynion amdanom ni' cyn pen 20 diwrnod gwaith 	TGC	Ebrill	Mawrth	Mae'r dangosyddion perfformiad wedi'u cyflawni.
